ARIAN I BAWB
AWARDS FOR ALL
CYMRU

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Telerau ac amodau'r grant Arian i Bawb Cymru

Diffiniadau

Mae "ni" ac "ein" yn cyfeirio at y sefydliad sy'n derbyn y grant sydd ynghlwm wrth y telerau a'r amodau hyn. Mae "chi" ac "eich" yn golygu'r Gronfa Loteri Fawr ac mae'n cynnwys eich cyflogeion a'r rheiny sy'n gweithredu ar eich rhan.

Mae'r "prosiect" yn golygu'r prosiect yr ydych yn rhoi'r grant i ni ar ei gyfer fel y nodir yn ein ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau ategol, a/neu fel yr amrywir gan y Cytundeb Grant.

Mae "Cytundeb Grant", yr ydym wedi'i dderbyn a'i lofnodi, yn cynnwys ac yn ymgorffori'r telerau a'r amodau safonol hyn a'r llythyr dyfarnu grant wedi'i lofnodi ynghyd ag unrhyw amodau eraill yr ydym wedi cytuno arnynt.

Deallwn na fydd y Cytundeb Grant yn dechrau hyd oni eich bod yn fodlon gyda'n holl ddogfennau ategol a bydd yn dod i rym ar y dyddiad y byddwn yn derbyn y taliad grant oddi wrthych chi.

1. Yn gyffredinol

1.1 Byddwn yn defnyddio'r grant yn gyfan gwbl ar gyfer y prosiect. Byddwn yn cadw unrhyw ran o'r grant na ddefnyddir ar ymddiriedolaeth i chi bob adeg, a byddwn yn ad-dalu unrhyw grant (gan gynnwys unrhyw grant na ddefnyddiwyd) i chi ar unwaith ar orchymyn.

1.2 Yn ystod cyfnod y grant byddwn yn gweithredu mewn modd teg ac agored heb wahaniaethu yn erbyn hil, crefydd, oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd, a chan gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.

1.3 Byddwn yn gwneud yn siŵr bod holl aelodau ein corff llywodraethol presennol ac yn y dyfodol neu ein tîm gweithredol, os ydym yn gorff statudol, yn derbyn copi o'r telerau a'r amodau hyn tra bydd y Cytundeb Grant yn aros mewn grym.

1.4 Byddwn yn gwneud yn siŵr bob amser tra bod y Cytundeb Grant mewn grym ein bod â'r cyfansoddiad cywir ac wedi'n rheoleiddio'n gywir a bod derbyn y grant a chyflwyno'r prosiect o fewn cwmpas ein dogfen lywodraethu, ac os byddwch yn gofyn i ni byddwn yn darparu barn gyfreithiol gan ein cyfreithwyr yn cadarnhau hyn.

2. Y prosiect

2.1 Byddwn yn cael eich cytundeb ysgrifenedig cyn gwneud unrhyw newid i'r prosiect neu ei nodau, strwythur, cyflawniad, cyfnod neu berchnogaeth.

2.2 Byddwn yn dechrau'r prosiect ymhen tri mis i dderbyn y taliad grant oddi wrthych chi, neu os caiff ei ohirio, byddwn yn ysgrifennu atoch yn rhoi'r rhesymau dros yr oedi ac yn gofyn am estyniad.

2.3 Rydym yn cytuno i wneud cynnydd boddhaol â'r prosiect a'i gwblhau o fewn deuddeng mis i dderbyn y taliad grant.

2.4 Ni fyddwn yn defnyddio'r grant i dalu am unrhyw ymrwymiadau gwario a wnaethom cyn dyddiad y Cytundeb Grant.

2.5 Byddwn yn dweud wrthych am unrhyw gynnig o arian ar gyfer y prosiect gan rywun arall unrhyw bryd yn ystod y prosiect.

2.6 Os byddwn yn gwario llai na'r grant cyfan ar y prosiect, byddwn yn dychwelyd y swm na wariwyd atoch ar unwaith. Os yw'r grant yn ariannu'r prosiect yn rhannol, byddwn yn dychwelyd cyfran briodol o'r grant na wariwyd atoch chi.

2.7 Byddwn yn cydnabod y grant yn gyhoeddus fel y bo'n briodol ac yn ymarferol. Byddwn yn dilyn eich canllawiau brandio a chyhoeddusrwydd bob amser. Byddwn yn cydnabod eich cefnogaeth a chefnogaeth y Loteri Genedlaethol mewn unrhyw ddogfennau cyhoeddedig sy'n cyfeirio at y prosiect, gan gynnwys hysbysebion, cyfrifon ac adroddiadau blynyddol cyhoeddus, neu mewn cyflwyniadau cyhoeddus ysgrifenedig neu ar lafar am y prosiect. Deallwn y byddwch chi a Chomisiwn y Loteri Genedlaethol yn monitro ein cydymffurfiad gyda'r canllawiau a byddwn yn cymryd camau priodol os byddwn yn torri'r canllawiau hyn.

2.8 Byddwn yn gweithredu o dan yr argymhellion a amlinellir yng nghynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr lle fo'n bosibl. Byddwn yn ystyried anghenion

ieithyddol buddiolwyr y prosiect a'r gymuned ehangach a gweithredu yn unol â hynny.

2.9 Rydym yn caniatáu trwy hyn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynghylch y grant a'r prosiect a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd. Gallwch gynnal unrhyw ffurf ar gyhoeddusrwydd a marchnata i hyrwyddo dyfarnu'r grant fel y gwelwch yn dda. Cytunwn i wneud beth bynnag y gofynnwch yn rhesymol amdano er mwyn cynorthwyo gydag unrhyw ffurf ar gyhoeddusrwydd a marchnata, gan gynnwys unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r wasg neu'r cyfryngau.

2.10 Byddwn yn dweud wrthych yn brydlon am unrhyw newidiadau i wybodaeth a ddarparwyd gennym a byddwn yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a gedwir gennych bob amser yn gywir ac yn gyfredol.

2.11 Wrth i ni reoli'r holl wybodaeth bersonol, byddwn yn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Byddwn yn dweud wrthych ar unwaith os bydd unrhyw un o'n cysylltiadau allweddol yn newid.

2.12 Rydym yn cytuno i fodloni pob deddf sy'n rheoleiddio'r ffordd yr ydym yn gweithredu, y gwaith a wnawn, y staff a gyflogir gennym neu'r nwyddau yr ydym yn eu prynu. Byddwn yn rhoi sylw i gydraddoldeb yn y ffordd yr ydym yn rhedeg y prosiect ac wrth recriwtio a dethol staff. Byddwn yn sicrhau bod gennym bolisi cyfleoedd cyfartal bob amser, i'n helpu i gydymffurfio â phob un o'r deddfau perthnasol ac arfer da trwy gydol cyfnod y Cytundeb Grant. Byddwn yn sicrhau'r holl gymeradwyaethau a thrwyddedau sy'n ofynnol gan y gyfraith neu gennych chi.

2.13 Os yw'ch prosiect yn cynnwys gwaith gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed ("pobl agored i niwed"), byddwn yn cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau eu diogelwch. Byddwn yn sicrhau cytundeb ysgrifenedig gan y gofalwr neu warcheidwad cyfreithiol cyn cael unrhyw gyswllt uniongyrchol gydag unrhyw berson agored i niwed. Bydd gennym a byddwn yn ymgymryd â pholisi ysgrifenedig priodol a bydd gennym set o weithdrefnau yn eu lle bob amser i ddiogelu pobl agored i niwed, a fydd yn cynnwys gweithdrefnau i wirio cefndiroedd a datgeliadau holl weithwyr, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr neu gontractwyr a fydd yn goruchwylio, gofalu am neu fel arall gael cyswllt uniongyrchol arwyddocaol gyda phobl agored i niwed gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

2.14 Os ydym yn elusen, byddwn yn cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau neu Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban os bydd ein hincwm yn mynd dros eu ffigur eithrio lleiaf.

2.15 Byddwn yn cynnal yswiriant digonol bob adeg ac os gofynnir i ni, byddwn yn cyflenwi copïau cadarnhau i chi. Mae hyn yn cynnwys yr holl yswiriant priodol ar gyfer unrhyw weithgareddau y byddwn yn eu darparu, unrhyw asedau yr ydym wedi'u prynu gyda'r grant ac yswiriant cyflogeion ac atebolrwydd cyhoeddus. Os bydd unrhyw ased wedi'i ddifrodi, ei ddinistrio neu ei ddwyn, rhaid i ni ddweud wrthych yn ysgrifenedig a rhaid i ni ei drwsio neu ei newid.

2.16 Mae hawl gennych i atgynhyrchu unrhyw ran o'n cais neu wybodaeth ddilynol a gyflwynir gennym i chi at unrhyw ddiben fel y gwelwch yn dda heb unrhyw hawl gennym ni i hawliad mewn perthynas â hawlfraint.

3. Ein sefydliad

3.1 Byddwn yn cael eich cytundeb ysgrifenedig cyn:

- Newid ein dogfen lywodraethu, (oni bai ein bod yn sefydliad statudol) ynglŷn â'n bwriadau, ein taliadau i aelodau ac aelodau o'n corff llywodraethol, rhannu ein hasedau (p'un ai yw ein sefydliad wedi'i ddiddymu ai peidio), neu dderbyn unrhyw aelodau newydd; neu
- Drosglwyddo ein hasedau i, neu uno neu ddod ynghyd ag, unrhyw gorff arall, gan gynnwys cwmni a sefydlwyd gennym ni.

3.2 Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn gynted â phosibl os gwneir unrhyw hawliadau cyfreithiol neu os cânt eu bygwth yn ein herbyn a/neu a fyddai'n effeithio er gwaeth ar y prosiect yn ystod cyfnod y grant (gan gynnwys unrhyw hawliadau a wnaed yn erbyn aelodau o'n corff llywodraethol neu'n staff ynglŷn â'r sefydliad).

3.3 Dywedwn wrthych yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd am unrhyw ymchwiliad yn ymwneud â'n sefydliad, ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, cyflogeion neu wirfoddolwyr sy'n cael ei gynnal gan yr Heddlu, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, Cyllid y Wlad neu unrhyw gorff rheoleiddio arall.

3.4 Byddwn ar gael ar gyfer cyfarfodydd gyda chi a byddwn yn caniatáu mynediad llawn a rhydd at ein cofnodion yn unrhyw un o'n swyddfeydd neu'n hadeiladau, i chi, neu'r rheiny sy'n gweithredu ar eich rhan neu i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

3.5 Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd llai na thri aelod ar ein corff llywodraethol a byddwn yn ei gynyddu i o leiaf tri aelod cyn gynted â phosibl.

4. TAW

4.1 Rydym yn cydnabod nad yw'r grant yn cael ei ystyried at unrhyw gyflenwad trethadwy at ddibenion TAW gennym ni i chi. Deallwn nad yw'ch rhwymedigaeth yn ymestyn i dalu am unrhyw symiau i ni yng nghyswllt TAW yn ychwanegol at y grant a bod y grant yr ydych chi'n ei roi i ni yn cynnwys TAW.

4.2 Rydym yn cytuno i'ch ad-dalu ar unwaith os byddwn yn adennill unrhyw TAW trwy wrthgyfrifiad, credyd neu ad-daliad i'r graddau y mae unrhyw gost TAW o'r fath wedi'i gynnwys yn y grant.

4.3 Byddwn yn eich hysbysu ar unwaith os bydd unrhyw TAW anadferadwy a hawliwyd o dan y grant yn dod yn adferadwy.

4.4 Byddwn yn cadw cofnodion cywir a chyfredol yn ymwneud â TAW, a byddwn yn sicrhau bod cofnodion o'r fath ar gael i chi eu gweld a byddwn yn rhoi copïau i chi os gofynnir amdanynt.

4.5 Os ydych chi wedi ariannu'r holl gostau TAW ar gyfer ein prosiect, byddwn yn cytuno i ad-dalu'r holl TAW adferadwy i chi ar unwaith.

4.6 Os ydych chi wedi ariannu cyfran o'r costau TAW ar gyfer y prosiect, rydym yn cytuno i ad-dalu'r un gyfran o'r TAW adferadwy i chi ar unwaith.

5. Ein hadroddiad a'n cyfrifon blynyddol

5.1 Byddwn yn cydnabod eich grant yn ein hadroddiadau a'n cyfrifon blynyddol sy'n ymdrin â chyfnod y prosiect.

5.2 Byddwn yn dangos eich grant a'ch gwariant cysylltiedig fel cronfa gyfyngedig o dan y disgrifiad "Grant Cronfa Loteri Fawr" yng nghyfrifon blynyddol ein sefydliad. Os oes gennym fwy nag un gronfa gyfyngedig, neu, fel awdurdod statudol, na allwn ddangos cronfeydd cyfyngedig yn ein cyfrifon, byddwn yn cynnwys nodyn i'r cyfrifon yn nodi pob cronfa gyfyngedig ar wahân. Os ydym yn cael mwy nag un grant gennych, byddwn yn cofnodi pob grant ar wahân yn y nodiadau i'r cyfrifon. Byddwn yn nodi ar wahân yn ein cofnodion cyfrifo unrhyw arian ac asedau heb eu gwario mewn perthynas â'r grant.

5.3 Byddwn yn anfon copi atoch chi o'n cyfrifon blynyddol cyn gynted ag y byddant wedi'u cymeradwyo yn unol â'n ddogfen llywodraethu ac o fewn deg mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer y flwyddyn y gwnaethom dderbyn y taliad grant. Bydd y cyfrifon yn cael eu llofnodi gan aelod o'n pwyllgor rheoli a'u harchwilio'n allanol neu eu gwerthuso yn annibynnol fel y bo'n briodol i'n sefydliad. Deallwn os ydym yn gorff statudol, nid oes gofyn i ni anfon ein cyfrifon atoch chi. Serch hynny, os ydych chi angen eu gweld, byddwn yn anfon ein cyfrifon atoch chi, wedi'u llofnodi a'u harchwilio fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau priodol.

5.4 Byddwn yn cadw cyfrifon cywir a chyfredol, cofnodion personél a chyflogres ar gyfer staff a ariennir gennych chi, anfonebau a chofnodion perthnasol eraill am o leiaf saith mlynedd ar ôl i'n grant ddod i ben, sy'n dangos sut mae'r grant wedi'i ddefnyddio. Byddwn yn gwneud y cofnodion ariannol hyn ar gael i chi edrych arnynt, a rhown gopïau i chi. Byddwn yn cwblhau pob un o'r adenillion statudol ar gyfer cyflogeion ac yn gwneud yr holl daliadau perthnasol i dalu am eu pensiynau a'u didyniadau cyflog, fel cyfraniadau treth incwm ac Yswiriant Gwladol.

5.5 Byddwn yn adrodd yn rheolaidd ac yn llawn wrth holl aelodau'n corff llywodraethol ar sefyllfa ariannol ein sefydliad a byddwn yn sefydlu gweithdrefnau er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n deillio wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflwyno'r prosiect.

6. Grantiau ar gyfer asedau a gwasanaethau

6.1 Os defnyddir unrhyw ran o'r grant i brynu, yn unigol neu fel cyfres o bryniannau, gyfarpar neu asedau cyfalaf eraill sy'n costio mwy na £250 neu'n talu am wasanaethau staff proffesiynol neu sesiynol yna byddwn yn sicrhau dyfynbrisiau cystadleuol i ddangos ein bod wedi sicrhau gwerth am arian o'r grant. Byddwn yn cadw'r holl dderbynebau ac anfonebau er mwyn i chi edrych arnynt. Os byddwn yn prynu cerbyd byddwn yn anfon copi o'r dogfennau cofrestru atoch chi yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl i chi anfon yr arian atom ni ar gyfer y cerbyd.

6.2 Ni fyddwn yn gwerthu, dosbarthu na benthyg yn erbyn yr asedau heb dderbyn eich caniatâd ysgrifenedig yn gyntaf. Gan fod ein grant wedi dod o arian cyhoeddus, deallwn a derbyniwn os ydych chi'n rhoi caniatâd efallai y bydd yn gofyn bod y gwerthiant ar werth llawn y farchnad a/neu yn amodol ar amodau sy'n gofyn i ni ad-dalu rhan o'r arian yr ydym yn ei dderbyn, neu'r cyfan ohono.

7. Monitro

7.1 Byddwn yn monitro cynnydd y prosiect ac yn cwblhau unrhyw adroddiadau gofynnol gan ddefnyddio'r ffurflenni yr ydych yn eu hanfon atom.

7.2 Byddwn yn rhoi'r diweddaraf i chi ar gynnydd y prosiect pan ofynnir amdano a byddwn yn anfon unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwch amdani o bryd i'w gilydd am y prosiect neu am ein sefydliad, a'i weithgareddau, nifer y defnyddwyr a buddiolwyr eraill, ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnwch amdani o dro i dro. Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon i fonitro neu gyhoeddi'r prosiect a/neu i werthuso eich rhaglenni grantiau.

7.3 Byddwn yn llenwi adroddiad terfynol ar y prosiect gan ddefnyddio'r ffurflen a anfonwch atom. Deallwn na fydd y grant wedi gorffen hyd oni fyddwn wedi cwblhau'r adroddiad hwn i'ch boddhad a'ch bod wedi derbyn cyfrifon blynyddol ar gyfer cyfnod y Cytundeb Grant.

7.4 Byddwn yn dweud wrthych ar unwaith yn ysgrifenedig am unrhyw beth sy'n gohirio, yn bygwth y prosiect yn sylweddol neu'n ei gwneud yn annhebygol y bydd yn cael ei gwblhau.

7.5 Byddwn yn dweud wrthych ar unwaith os bydd yna unrhyw amrywiad i'r ffordd yr ydym yn cyflwyno'r prosiect.

8. Talu grant

8.1 Byddwn yn agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ar wahân a dynodedig at ddiben unigryw derbyn a gweinyddu'r grant os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny a byddwn yn rhoi cyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu i chi yn ôl yr angen.

8.2 Byddwch yn talu'r grant trwy drosglwyddiad banc (BACS) i gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu yn ein henw ni, sy'n gofyn am lofnod o leiaf dau berson awdurdodedig ar gyfer pob swm o arian sy'n cael ei dynnu allan. Ni fyddwn yn defnyddio ATMs na chardiau debyd i godi arian neu wneud taliadau o'r cyfrif hwn.

9. Hyd y Cytundeb Grant

9.1 Mae'r telerau a'r amodau hyn a'r Cytundeb Grant yn aros mewn grym am ba un bynnag o'r rhain yw'r cyfnod hiraf:

- Am flwyddyn ar ôl talu'r grant.

Cyn belled â'n bod yn peidio â chyflawni unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb Grant neu fod unrhyw achos o'u torri yn parhau (mae hyn yn cynnwys unrhyw adroddiad sy'n aros ar wariant grant neu gyflawni'r prosiect).

10. Rydym yn deall

10.1 Na allwch sicrhau'r grant dim ond tra bydd arian gan y Loteri Genedlaethol ar gael a'ch bod yn parhau i weithredu.

10.2 Rydym yn derbyn y gallech rannu gwybodaeth ynghylch ein grant gydag unrhyw grwpiau o'ch dewis ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a allai ofyn am y wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gellir darlledu manylion y prosiect, ar eich disgresiwn eich hunain a heb unrhyw daliad i ni, ar y teledu, ar eich gwefan, yn y papur newydd a thrwy unrhyw gyfrwng arall.

10.3 Ni fyddwch yn cynyddu'r grant os gwariwn fwy na'r gyllideb a gytunwyd.

10.4 Nid ydych yn derbyn unrhyw atebolrwydd dros unrhyw ganlyniadau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a allai ddeillio o'r ffordd yr ydym yn rhedeg y prosiect, o ddefnyddio'r grant neu o dynnu ein grant yn ôl.

10.5 Mae'n bosibl y byddwch yn mynnu ad-daliad (a byddwn yn ad-dalu pan ofynnir i ni) o'r grant cyfan neu ran ohono ar eich disgresiwn absoliwt, o dan unrhyw rai o'r amgylchiadau a ganlyn os:

- Ydym yn methu bodloni unrhyw un o'r telerau a'r amodau hyn, neu'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw grantiau eraill gennych y mae Cytundeb Grant yn dal mewn grym ar ei gyfer;
- Os gwnaethom lenwi'r ffurflen gais yn anonest neu'n sylweddol o anghywir neu gamarweiniol.
- Os gwnaethom ni neu unrhyw berson neu sefydliad arall sy'n gweithredu ar ein rhan roi unrhyw wybodaeth i chi a oedd yn sylweddol o gamarweiniol neu anghywir, boed yn bwrpasol neu'n ddamweiniol, yn ystod y broses gwneud cais, neu yn ystod cyfnod y Cytundeb Grant;
- Os yw aelodau o'n corff llywodraethol, ein gwirfoddolwyr neu ein staff yn gweithredu ar unrhyw adeg yn ystod y prosiect yn anonest neu'n esgeulus neu mewn unrhyw ffordd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan wneud niwed i ni neu gan wneud niwed i'n sefydliad neu'r prosiect neu gan wneud niwed i'ch enw da;
- Mae ein sefydliad, aelodau ein corff llywodraethol, cyflogeion neu wirfoddolwyr yn destun ymchwiliad neu ymholiad ffurfiol gan yr Heddlu, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, Cyllid y Wlad neu gorff rheoleiddio arall;
- Os ydym yn derbyn arian dyblyg o unrhyw ffynhonnell arall ar gyfer yr un rhan neu unrhyw ran o'r prosiect;
- Os oes newid sylweddol o ran diben, perchnogaeth neu dderbynnydd, naill ai yn ystod y prosiect neu ymhen cyfnod rhesymol ar ôl ei gwblhau, fel eich bod yn barnu bod y grant yn annhebygol o gyflawni'r diben y gwnaethoch ef ar ei gyfer.
- Os nad ydym ar unrhyw adeg yn ystod y broses gais neu yn ystod cyfnod y Cytundeb Grant, yn gadael i chi gael gwybodaeth a fyddai'n effeithio ar eich penderfyniad i ddyfarnu, parhau neu dynnu'n ôl y grant i gyd neu ran ohono;
- Os ydym yn anghymwys neu'n mynd yn anghymwys yn gyfreithlon i gadw'r grant a/neu
- Os oes gennych resymau rhesymol i gredu ei bod yn angenrheidiol diogelu arian cyhoeddus.

10.6 Mae'n bosibl y byddwch yn mynnu ad-daliad o ran o'r grant, neu'r cyfan ohono os yw'n debygol y bydd rhaid i'n sefydliad roi'r gorau i weithredu, y gall gael ei ddiddymu neu fynd yn fethdaliadol, neu mae'n debygol y bydd yn cael ei roi mewn gweinyddiaeth neu ddiddymiad neu i law'r derbynnydd, neu rydym ar fin gwneud trefniant gyda, neu warantu Gweithred Ymddiriedolaeth i'n credydwyr.

10.7 Rydym yn cydnabod bod y grant yn dod o gronfeydd cyhoeddus ac ni fyddwn yn defnyddio'r grant mewn modd sydd gyfystyr â Chymorth Gwladwriaethol anghymeradwy. Os bydd yn cael ei ystyried yn Gymorth Gwladwriaethol anghymeradwy, yna byddwn yn ad-dalu'r grant cyfan ar unwaith.

10.8 Efallai na fyddwn yn trosglwyddo unrhyw ran o'r grant neu'r Cytundeb Grant hwn neu unrhyw hawliau i sefydliad neu unigolyn arall, onid ydym wedi mynd i gytundeb, wedi'i awdurdodi gennych chi, sy'n gofyn i ni weithio gyda sefydliad arall wrth gyflwyno'r prosiect.

10.9 Mae'n bosibl y byddwch yn gwrthod unrhyw gais gennym ni yn y dyfodol i raglenni eraill yr ydych

chi'n eu rhedeg os na fyddwn yn cydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn neu os bennwch na wnaethom ddelio â'r grant yn ddigonol neu os wnaethom fethu â chwblhau unrhyw geisiadau am wybodaeth y gwnaethoch chi i ni.

11. Amodau ychwanegol

11.1 Mae gennych yr hawl i osod mwy o delerau ac amodau ar y grant naill ai yn y llythyr yn cynnig y grant i ni a/neu:

- Os ydym yn torri'r Cytundeb Grant.
- Os ydych yn barnu bod aelodau o'n corff llywodraethol, ein gwirfoddolwyr neu ein staff neu unrhyw berson neu sefydliad sy'n ymwneud yn agos â chynnal y prosiect yn gweithredu mewn ffordd a allai gael effaith niweidiol ar y prosiect neu ar eich enw da fel dosbarthwr arian cyhoeddus neu fel corff a noddir gan y Llywodraeth; a/neu
- Os ydych yn credu bod amodau o'r fath yn angenrheidiol neu'n ddymunol i wneud yn siŵr bod y prosiect yn cael ei gyflwyno fel y nodwyd yn ein cais neu gan ddilyn newidiadau cytûn.